

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd
Cofnodion y cyfarfod
a gynhaliwyd ddydd Mawrth 21 Mawrth 2017, 2 – 4pm
Tramshed Tech, Caerdydd



<p><u>Yn bresennol</u></p> <p>Aelodau Bwrdd Statudol: Y Cynghorydd Phil Bale (Cadeirydd) Paul Orders Maria Battle Fiona Kinghorn</p> <p>Abigail Harris</p> <p>Huw Jakeway Gareth O’Shea</p> <p>Cyfranogwyr Gwadd: Sheila Hendrickson-Brown Mark Brace Stephen Jones</p> <p>Ymddiheuriadau: Sharon Hopkins</p> <p>Peter Vaughan Belinda Davies Eleanor Marks</p> <p>Peter Greenhill</p> <p>Gail Reed Victoria Harris</p> <p>Hefyd yn bresennol: Allison Dutoit Joseph Reay</p> <p>Gareth Newell</p>	<p>Arweinydd, Cyngor Dinas Caerdydd</p> <p>Prif Weithredwr, Cyngor Dinas Caerdydd Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro</p> <p>Cyfarwyddwr Cynllunio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro</p> <p>Prif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru</p> <p>Prif Swyddog Gweithredol, C3SC Comisiynydd Cynorthwyol yr Heddlu a Throseddau Uwch-arolygydd Heddlu De Cymru</p> <p>Prif Weithredwr Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro</p> <p>Prif Gwnstabl, Heddlu De Cymru Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru Dirprwy Gyfarwyddwr Isadran Cymunedau, Llywodraeth Cymru</p> <p>Pennaeth Uned Gyflenwi Leol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol</p> <p>Dirprwy Bennaeth yr Uned Gyflenwi Leol Pennaeth yr Uned Gyflenwi Leol, Cwmni Adsefydlu Cymunedol</p> <p>Gehl Architects Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau Cyngor Dinas Caerdydd</p> <p>Rheolwr Polisi, Partneriaethau ac Ymchwil, Cyngor Dinas Caerdydd</p>
--	---

Anne Wei	Rheolwr Partneriaeth a Chynllunio Strategol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Yr Athro Adam Fletcher	Cyfarwyddwr Academiaidd, NESTA/Y Lab (Eitem 5)
Rob Ashelford	Uwch Rheolwr Rhaglenni Arloesedd (Eitem 5)
Nick Batchelar	Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Dinas Caerdydd (Eitem 6)
Suzanne Scarlett	Rheolwr Perfformiad Addysg, Cyngor Dinas Caerdydd (Eitem 6)
Louise Harris	Tramshed Tech
Kate Ward	Prif Swyddog Polisi, Partneriaethau a Gwasanaethau Cyhoeddus, Cyngor Dinas Caerdydd
Clive Bailey (Clerc)	Swyddog Polisi a Phartneriaethau, Cyngor Dinas Caerdydd

Rhif.	Eitem agenda	
1.	Croeso a Chyflwyniadau Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel uchod.	
2.	Cofnodion a chamau gweithredu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2017 fel cofnod cywir. PENDERFYNWYD: - Dosbarthu briff i'r Bwrdd a Gweithrediaeth y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus ar agenda arfaethedig y gweithdy ar gais Catapwlt Dinasoedd y Dyfodol ym mis Ebrill 2017.	Ysgrifenyddiaeth
3.	Asesiad Llesiant Lleol a Chynllun Llesiant Lleol Rhoddodd GN drosolwg o'r adborth a gafwyd a'r newidiadau a wnaed i'r asesiad Llesiant Lleol drafft yn dilyn ymgynghori. CYMERADWYWYD Cyhoeddi Asesiad Llesiant Llesol Caerdydd yn amodol ar unrhyw newidiadau terfynol. Rhoddodd Allison Dutoit, Ymgynghorydd Dinas Fyw, Dinas Byw ei barn ar yr Adroddiad Dinas Fyw, Dinas Byw gan amlinellu rhai o'r camau i'w hystyried wrth lunio Cynllun Llesiant Lleol Caerdydd gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Meddu ar un weledigaeth • Nodi amcanion / camau penodol ar gyfer Caerdydd • Nodi meini prawf llwyddiant 	

	<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio data i nodi a datrys problemau • Gwerthuso sut mae projectau'n cydweithio • Defnyddio adborth gan gymunedau • Defnyddio rhwydweithiau / adnoddau â phrosesau penodol ar gyfer ymgysylltu <p>Bu'r Bwrdd hefyd yn trafod mabwysiadu dull hynod gyfranogol / 'o'r gwaelod i fyny' o ymgynghori ac ymgysylltu ar y cynllun llesiant drafft.</p> <p>Aeth GN â'r Bwrdd drwy'r amserlenni ar gyfer llunio a chyhoeddi Cynllun Llesiant Lleol Caerdydd. Trafodwyd y materion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Yr amserlen ar gyfer cyflwyno amcanion llesiant drafft i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol o ran cael cyngor arnynt erbyn haf 2017 - Nodi amcanion llesiant sy'n hwyluso gweithio ar draws partneriaeth, sy'n benodol i Gaerdydd ac yn seiliedig ar yr asesiad llesiant. - Nodi map ffordd lefel uchel ar gyfer llunio'r Cynllun Llesiant. Defnyddio'r ymgynghoriad ar y cynllun llesiant fel cyfle i gynyddu cyfranogiad ac estyn y sgwrs i set o randdeiliaid ehangach. <p>PENDERFYNWYD:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Y byddai Grŵp Cyngori Polisi'r bartneriaeth yn llunio proses i alluogi'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus i nodi amcanion llesiant drafft yn ei gyfarfod ar 8 Mehefin 2017. - Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen ar sail partneriaeth i lunio cynllun ymgysylltu. 	<p>Ysgrifenyddiaeth</p> <p>Ysgrifenyddiaeth</p>
<p>4.</p>	<p>Adroddiad Brexit</p> <p>Cyflwynodd GN yr adroddiad sy'n nodi rhai o'r cyfleoedd a'r risgiau i'r ddinas a sut y gallai Llywodraethau'r DU a Chymru helpu'r ddinas i baratoi ar gyfer effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd ac ymateb iddi.</p> <p>Trafododd y Bwrdd yr effaith bosibl a gaiff Brexit ar sgiliau a chynllunio'r gweithlu phwysigrwydd cyfleu'r neges fod Caerdydd yn ddinas groesawgar.</p> <p>PENDERFYNWYD:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Y dylid cyhoeddi adroddiad Brexit yn dilyn y cyfarfod, cyn yr eir ati i sbarduno Erthygl 50. - MB i ddosbarthu data recriwtio a chadw staff Bwrdd Iechyd y Brifysgol i'r Bwrdd. 	<p>Ysgrifenyddiaeth</p> <p>Ysgrifenyddiaeth</p>

<p>5.</p>	<p>Hyb Arloesi</p> <p>Cyflwynodd Rob Ashelford y cynnig diwygiedig a argymhellwyd gan Weithrediaeth y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus yn ei chyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mawrth. Cynigir y dylid peilota'r model tîm arloesi ar sail her unigol i brofi'r cysyniad, ac os bydd yn llwyddo defnyddio'r model fel templed ar gyfer nifer o heriau arloesedd yn y dyfodol. Cytunwyd i sefydlu cronfa ar gyfer 17 / 18 y gellid ei defnyddio i gynorthwyo â heriau yn ystod y flwyddyn.</p> <p>Codwyd y pwysigrwydd o sefydlu cysylltiad rhwng amcanion y cynllun llesiant a'r heriau a nodwyd, a chytunwyd i lansio'r her gyntaf ar ôl i'r bwrdd nodi'r amcanion llesiant drafft, a'i chynnal rhwng mis Mehefin a mis Rhagfyr 2017.</p> <p>PENDERFYNWYD:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Peilota'r model tîm arloesi gyda'r Lab o fis Mehefin 2017. 	<p>Ysgrifenyddiaeth</p>
<p>6.</p>	<p>Ymrwymiad Caerdydd</p> <p>Rhoddodd Nick Batchelar a Suzanne Scarlett drosolwg o'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â llunio Ymrwymiad Caerdydd. I sicrhau arweinyddiaeth ac atebolrwydd strwythuredig o ran cyflawni, caiff trefniadau llywodraethu newydd eu rhoi ar waith erbyn diwedd mis Mai 2017. Bydd hyn yn cynnwys Grŵp Arweinyddiaeth Strategol, dan gadeiryddiaeth Prif Weithredwr y Cyngor a fydd yn cyflwyno adroddiadau rheoliad i'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus.</p> <p>Gwahoddodd NB bartneriaid y Bwrdd i ystyried sut y gallan nhw gyfrannu tuag at symud Ymrwymiad Caerdydd yn ei flaen.</p> <p>Rhoddodd Louise Harris o Tramshed Tech gyflwyniad ar y llwyfan digidol newydd sy'n cael ei ddatblygu i baru pobl ifanc â swyddi / prentisiaethau. Trafododd y Bwrdd bwysigrwydd arweinyddiaeth ac eiriolaeth o ran sicrhau mai'r llwyfan digidol yw'r lle gorau i droi ato.</p> <p>PENDERFYNWYD:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Bwrw ymlaen ag Ymrwymiad Caerdydd fel blaenoriaeth i'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus. - Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i enwebu cynrychiolydd i eistedd ar y Grŵp Arweinyddiaeth Strategol. 	<p>Pawb Tîm Addysg</p>

7.	<p>Trefniadau Llywodraethu'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus ac adroddiad ar eithriadau Chwarter 3 2016 / 17</p> <p>Trafododd y Bwrdd y trefniadau llywodraethu presennol ac argymhelliad Gweithrediaeth y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus y dylai'r model dwy haen barhau, gyda threfniadau adrodd gwell rhwng y ddau Fwrdd.</p> <p>PENDERFYNWYD:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Parhau â'r model dwy haen gyda'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus llawn yn canolbwyntio ar ddatblygiad strategol y cynllun llesiant a materion strategol eraill er mwyn galluogi Gweithrediaeth y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus i reoli'r gwaith cyflawni gweithredol. - Dosbarthu nodyn briffio byr yn dilyn pob cyfarfod o'r Bwrdd i sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn gwybod am y cynnydd a'r penderfyniadau diweddaraf. - Gwahodd Cadeirydd yr Ardal Gwella Busnes i gyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus yn y dyfodol. 	<p>Ysgrifenyddiaeth</p> <p>Ysgrifenyddiaeth</p> <p>Ysgrifenyddiaeth</p>
8.	<p>Sganiao'r Gorwel ac Unrhyw Fusnes Arall</p> <p>Ni chodwyd unrhyw faterion.</p>	
	<p>Dyddiadau Cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Caerdydd</p> <p>8 Mehefin 2017, 10-12pm, lleoliad i'w gadarnhau</p>	

Camau Gweithredu		
	<p>Eitem 2 Cofnodion a champau gweithredu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus</p> <ul style="list-style-type: none"> - Dosbarthu briff i'r Bwrdd a Gweithrediaeth y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus ar agenda arfaethedig y gweithdy ar gais Catapwlt Dinasoedd y Dyfodol ym mis Ebrill 2017. <p>Eitem 3 Asesiad Llesiant Lleol a Chynllun Llesiant Lleol</p> <ul style="list-style-type: none"> - CYMERADWYWYD Cyhoeddi Asesiad Llesiant Llesol Caerdydd yn amodol ar unrhyw newidiadau terfynol. - Y byddai Grŵp Cyngori Polisi'r bartneriaeth yn llunio proses i alluogi'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus i nodi amcanion llesiant drafft yn ei gyfarfod ar 8 Mehefin 2017. 	<p>Ysgrifenyddiaeth</p> <p>Ysgrifenyddiaeth</p> <p>Ysgrifenyddiaeth</p>

<ul style="list-style-type: none"> - Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen ar sail partneriaeth i lunio cynllun ymgysylltu. 	Ysgrifenyddiaeth
<p>Eitem 4 Adroddiad Brexit</p>	
<ul style="list-style-type: none"> - Y dylid cyhoeddi adroddiad Brexit yn dilyn y cyfarfod, cyn yr eir ati i sbarduno Erthygl 50. 	Ysgrifenyddiaeth
<ul style="list-style-type: none"> - MB i ddsbarthu data recriwtio a chadw staff Bwrdd Iechyd y Brifysgol i'r Bwrdd. 	Ysgrifenyddiaeth
<p>Eitem 5 Hyb Arloesi</p>	
<ul style="list-style-type: none"> - Peilota'r model tîm arloesi gyda'r Lab o fis Mehefin 2017. Defnyddio'r broses o nodi'r amcanion llesiant i helpu gyda'r gwaith o nodi'r her gyntaf. 	Ysgrifenyddiaeth
<p>Eitem 6 Ymrwymiad Caerdydd</p>	
<ul style="list-style-type: none"> - Roedd partneriaeth o blaid bwrw ymlaen ag Ymrwymiad Caerdydd fel blaenoriaeth i'r Bwrdd Gwasasnaeth Cyhoeddus. 	Pawb
<ul style="list-style-type: none"> - Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i enwebu cynrychiolydd i eistedd ar y Grŵp Arweinyddiaeth Strategol. 	Tîm Addysg
<p>Eitem 7 Trefniadau Llywodraethu'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus ac adroddiad ar eithriadau Chwarter 3 2016 / 17</p>	
<ul style="list-style-type: none"> - Parhau â'r model dwy haen gyda'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus llawn yn canolbwyntio ar ddatblygiad strategol y cynllun llesiant a materion strategol eraill er mwyn galluogi Gweithrediaeth y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus i reoli'r gwaith cyflawni gweithredol. 	Ysgrifenyddiaeth
<ul style="list-style-type: none"> - Dosbarthu nodyn briffio byr yn dilyn pob cyfarfod o'r Bwrdd i sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn gwybod am y cynnydd a'r penderfyniadau diweddaraf. 	Ysgrifenyddiaeth
<ul style="list-style-type: none"> - Gwahodd Cadeirydd yr Ardal Gwella Busnes i gyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus yn y dyfodol. 	Ysgrifenyddiaeth